

# Sefydli Canghellor



PRIFYSGOL DE CYMRU



Sefydlu Canghellor  
y  
Prifysgol De Cymru

Y Gwir Barchedig a'r Gwir Anrhydeddus  
Yr Arglwydd Williams o Ystumllwynarth  
PC FRSA FRSL

14 Ebrill 2014





Yr Athro Julie Lydon  
Is-Ganghellor

# Croeso gan yr Is-Ganghellor

## Croeso i Brifysgol De Cymru ar ddiwrnod o ddathlu mawr i ni.

Mae heddiw yn ddathliad o'r hyn yr ydym ni, a'r hyn yr ydym ni'n credu sy'n bwysig. Mae sefydlu Canghellor yn achlysur academaidd pwysig, wrth gwrs, ond mae hefyd yn ailddatganiad sylfaenol o'n gwerthoedd. Yn Rowan Williams, gwahodddwn ysgolhaig o bwys deallusol mawr a hunaniaeth falch, sy'n rhannu gwerthoedd dysgu a chyfiawnder cymdeithasol, i arwain ein Prifysgol.


Credaf y byddai hwn yn ddiwrnod balch i'r arweinwyr busnes a phroffesiynau a sefydlodd y colegau dysgu uwch a dyfodd i ffurfio ein Prifysgol, oherwydd heddiw yw'r garreg filltir ddiweddaraf yn unig mewn 170 mlynedd o dreftadaeth addysgol fawreddog.

Mae ein Prifysgol yn ychwanegu gwerth at ein cymunedau, ein heconomi ac, yn fwyaf sylfaenol, at fywydau'r rhai hynny sy'n astudio o fewn ei chymuned academaidd fywiog. Pa un a ydym ni'n addysgu graddedigion ar gyfer byd gwaith a diwydiant sy'n newid neu'n rhoi cyngor polisi i'r llywodraeth, yn gwthio ffiniau ymchwil gymhwysol neu'n defnyddio'r darganfyddiadau hynny i fynd i'r afael â'r dewisiadau mawr sy'n wynebu ein cymdeithas, mae Prifysgol De Cymru yn rym pwysig er budd rhanbarth De Cymru ac yn ein partneriaethau rhyngwladol arbennig.

Gwelir llawer o symbolau heddiw. Mae'r gynulleidfa'n cynnwys pobl o bob rhan o fywyd yn Ne Cymru. Mae presenoldeb ein myfyrwyr rhyngwladol, sy'n cynrychioli eu cydweithwyr o fwy na 120 o wledydd, yn dangos gwreiddiau lleol a chysylltiadau byd-eang ein Prifysgol. Mae cyflwyno Byrlysg newydd, a ddyluniwyd gan un o'n hacademyddion ac a wireddwyd gan ein partneriaid mewn diwydiant, yn dangos y cysylltiad â chyflogwyr sy'n rhan annatod ohonom.

Mae'r cyfraniadau cerddorol a barddonol, a gomisiynwyd mewn partneriaeth ar gyfer seremoni heddiw, yn cynnwys ein Hathro barddoniaeth arobryn yn cydweithredu â chyfansoddwr graddedig ifanc, a chyfansoddwr profiadol o'n cymoedd, gyda pherfformiadau gan fyfyrwyr o'n Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, sy'n dangos ychydig yn unig o'r doniau artistig a diwylliannol a geir ym Mhrifysgol De Cymru. Ac mae'r cyfraniad at ein cymdeithas a'n gwlad gan y bobl neilltuol a anrhydeddwn heddiw yn dangos cyrhaeddiad ymrwymiad y Brifysgol i ychwanegu gwerth at fywydau pobl, yr economi, a'r cymunedau o'n hamgylch.

Rydym yn falch iawn eich bod yn gallu ymuno â ni ar y diwrnod arbennig hwn. Croeso cynnes i chi.



Yr Athro Julie Lydon  
Is-Ganghellor



# Myfyrdodau'r Ganghellor

Mae'n achlysur arbennig mewn sawl ffordd, yn enwedig i mi.

Mewn nifer o ffyrdd, mae'n teimlo fel fy mod yn dychwelyd adref mewn ystyr bersonol iawn. Yn ystod fy mywyd, rydw i wedi treulio blynyddoedd lawer y tu allan i Gymru, ond yma mae fy ngwreiddiau o hyd, ac maent yr un mor gadarn ag yr oeddent pan adewais fel bachgen ysgol o Abertawe i ddechrau astudio fel myfyriwr israddedig, a'r diwrnod ddegawdau'n ddiweddarach pan adewais fy rôl fel Esgob Mynwy ac Archesgob Cymru i fynd i Gaergaint. Rwy'n dychwelyd i Gymru heddiw am un o'r rhesymau gorau posibl yn fy marn i: i ymgymryd â fy rôl nesaf ym mhrifysgol fwyaf Cymru ac un o brif asedau ei chymdeithas ddinesig ac economaidd.

Rydw i'n dod adref mewn ystyr ddeallusol ac athronyddol hefyd. Mae cael eich penodi'n bennaeth swyddogol prifysgol yn anrhydedd dwys i ysgolhaig, ac mae cael fy ngwahodd gan Brifysgol De Cymru i fod yn Ganghellor yn rhoi llawer iawn o bleser personol a theimlad o falchder tawel i mi. Dyma gymuned academiaidd fywiog lle mae'r ymroddiad i drawsnewid bywydau drwy wybodaeth ac addysg yn dod â sawl cenedl a chred ynghyd.

O brofiad personol, rwyf yn gwybod bod graddedigion a'u cyflogwyr yn gwerthfawrogi'n aruthrol yr addysg y mae'r Brifysgol hon yn ei rhoi, ac mae llwyddiant y Brifysgol o ran paratoi ei myfyrwyr ar gyfer byd gwaith yn ennyn balchder cyfiawn. Mae llawer yn cael ei ddweud a'i ysgrifennu'r dyddiau hyn am gyfrifoldebau cyhoeddus y Brifysgol hefyd; mae hyn, fel arfer, yng nghyd-destun sut mae prifysgolion yn dangos ei 'heffaith' ar y cyhoedd a sut mae'n cysylltu â chymunedau lleol a chenedlaethol.

Mae rhai o'r pynciau y mae prifysgolion newydd yn eu cynnig wedi bod yn destun gwawd a sôn am erydu difrifoldeb deallusol; fodd bynnag, rwyf yn amau nad oes unrhyw bynciau amhriodol, dim ond dulliau amhriodol neu annigonol o addysgu.


Mae gennym brif swyddogaeth gyffredin, ac nid yw'n gyfyngedig i unrhyw bynciau penodol: mae'n seiliedig ar addysgu dinasyddion fydd yn gofyn cwestiynau craff mewn bywyd cyhoeddus, yn deall y grymoedd sy'n ei llunio, yn ogystal â gwybod pa mor o ddifrif (os o gwbl) y dylid ystyried yr ehangder dryslyd o bropaganda a ffasiwn sy'n chwyrlio o gwmpas yn yr oes llawn gwybodaeth sydd ohoni.

Yr 'effaith' fwyaf y gall unrhyw brifysgol ei chael yw helpu pobl i fod yn ddinasyddion deallus. Mae hynny'n golygu eu helpu i weld beth yw dadl feirniadol, beth yw meddwl go iawn, ac ystyried materion o bwys mewn sefyllfaoedd lle ceir parch a disgwyliadau cadarnhaol.

Mae Prifysgol De Cymru yn bresenoldeb o bwys ym Mhrydain a'r gymuned addysg uwch fyd-eang, yn ogystal â grym pwysig i newid pethau er gwell yng Nghymru. Rôl draddodiadol y Canghellor yw cynrychioli'r Brifysgol, llywyddu achlysuron dathlu academiaidd pwysig, a lleisio gwerthoedd oesol y Brifysgol ei hun. Edrychaf ymlaen at wneud hyn oll gydag egni fel Canghellor Prifysgol De Cymru. Pleser o'r mwyaf yw bod gyda chi ar ddechrau pennod nesaf yn hanes ein Prifysgol.

**Rowan Williams**





Yr 'effaith' fwyaf y gall  
 unrhyw brifysgol ei chael  
 yw helpu pobl i fod yn  
 ddinasyddion deallus.

Y Gwir Barchedig a'r Gwir  
 Anrhydeddus Yr Arglwydd  
 Williams o Ystumllwynarth

# Byrllysg newydd y Brifysgol

Ffon fetel neu bren hynod addurniadol yw'r byrllysg seremonïol sy'n tarddu'n wreiddiol o arf a ddefnyddiwyd fel symbol o awdurdod. Byrllysgwr sy'n ei gario, ac mae'n cynrychioli statws sofran neu sefydliad o bwys mewn seremoni ddinesig, neu wrth gynnal busnes deddfwriaethol neu weithredol. Yn y cyd-destun academiaidd, mae'n symbol o awdurdod y Brifysgol i ddyfarnu graddau a chynnal digwyddiadau o bwys fel Cynulliad y Dyfarniadau.

Mae byrllysg newydd wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu ar gyfer Prifysgol De Cymru gan yr artist arobryn a darlithydd ym Mhrifysgol De Cymru, Jeremy Spencer, a gweithwyn hyrchu gyda thîm o beirianwyr a phresentisiaid yn GE Aviation Cymru, gyda chefnogaeth gan gwmnïau gweithgynhyrchu arbenigol lleol. Mae'r cyhoedd yn cael gweld y byrllysg am y tro cyntaf yn y seremoni heddiw, ac mae'n cyfuno dyluniad a deunydd modern â thraddodiad y byrllysg academiaidd.

Eglurodd y dylunydd: "Mae'r ddau helics yn nyluniad y byrllysg seremonïol yn symbol o addysg a diwydiant yn dod ynghyd i weithio tuag at ragoriaeth academiaidd. Mae'r ddwy elfen sydd ynddo, sef carbon a dur, yn adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol wych de Cymru, sydd bob amser wedi cael cysylltiadau agos ag addysg. I gynhyrchu'r byrllysg, defnyddiwyd technegau prototeip cyflym modern a rhannau a grefftwyd â llaw, gan ddod â sgiliau ein partneriaid talentog yn y diwydiant ynghyd. Mae pen y byrllysg yn cyd-fynd â ffurf ddeinamig y pren. Mae'n arddangos arfbais y Brifysgol sy'n cynnwys delweddau o ddreigiau o Gymru a Tsieina, gyda'u hadenydd yn ymestyn, gan ddangos ein gwreiddiau cadarn a'n cyrhaeddiad rhyngwladol fel ei giilydd."



Uchod ac isod: Jeremy'n gweithio ar gynffurf o fyrllysg y Brifysgol



Artist a dylunydd yw **Jeremy Spencer** ac ef ddyluniodd y Gadair yn 2010 ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy. Yn gynharach yn ei yrfa, roedd gan Jeremy ei fusnes ei hun yn gwneud modelau a phrototeip, lle bu'n gweithio i nifer o gleientiaid gan gynnwys y gwneuthurwyr celfi byd-eang Fiskars ac ICI, cyn mynd i'r byd academiaidd. Yn ogystal â choedwriaeth draddodiadol, mae Jeremy yn defnyddio deunyddiau newydd a thechnegau gweithgynhyrchu hefyd megis argraffu 3D a thorri laser yn ei waith. Mae'n gwneud propiau ar gyfer ffilmiau'n rheolaidd hefyd, gan gynnwys yr epig Feiblaidd Exodus sydd ar fin cael ei dangos a gyfarwyddwyd gan Ridley Scott. Mae Jeremy yn darlithio ar y cwrs Celf a Dylunio Sylfaen yn y Brifysgol lle gall myfyrwyr fynd ymlaen i astudio mewn sawl maes gwahanol ar draws ehangder cyfan y sbectrwm creadigol, megis ffasiwn, pensaernïaeth, darlunio ac animeiddio.





# Gwisg Academaidd y Brifysgol



Mae gwisg academaidd Prifysgol De Cymru yn dilyn traddodiad a sefydlwyd yn y Canol Oesoedd pan fyddai prifysgolion gwreiddiol y Gorllewin yn addasu gwisgoedd y cyfnod i amlygu'r ysgolheigion. Mae manylion amrywiol y wisg academaidd erbyn hyn yn cynrychioli'r Brifysgol a'r radd sy'n gysylltiedig â'r sawl sy'n ei wisgo.

Ar y cyfan, mae gan uwch-swyddogion prifysgolion Prydain wisg unigryw a mwy cymhleth. Mae mantell y Canghellor wedi'i dylunio a'i chreu'n arbennig ar gyfer Prifysgol De Cymru, ac mae'n dilyn ffurf draddodiadol y wisg seremonïol y mae'r haen uwch wedi'i wisgo ers yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mae swyddogion megis y Llefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Arglwydd Canghellor yn gwisgo'r math hwn o fantell hefyd.

Mae mantell Canghellor y Brifysgol, sy'n cael ei gwisgo am y tro cyntaf heddiw, wedi'i gwneud o ddamasg coch 'truro', wedi'i haddurno gyda gwyn ac mae manylder llwyd ar y tu blaen. Mae'r addurniadau arian ar y llewys yn cael eu galw'n 'frogaod'. Mae gan y Canghellor het crwn a medal ar ei ben, a elwir yn foned Tuduraidd, ac mae cysylltiad hirsefydlog rhwng het o'r fath â thraddodiadau academaidd y Deyrnas Unedig.

Mae Is-ganghellor ac uwch-swyddogion y Brifysgol yn gwisgo mentyll nodedig sy'n seiliedig ar y dyluniad cyffredinol hwn. Mae cyflau israddedigion a myfyrwyr Meistr y Brifysgol yn amrywiad o goch a llwyd-lllechi, ac mae mentyll llawn gradd Doethurol wedi'u gwneud o frethyn coch llachar tebyg i sidan yn draddodiadol.




# Barddoniaeth a cherddoriaeth ar gyfer yr achlysur heddiw

Prifysgol De Cymru yw un o'r prif rymoedd ym mywyd diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys yr ysgol gerddoriaeth genedlaethol, sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru; beirdd ac awduron arobryn, artistiaid a cherflunwyr, dramodwyr a dylunwyr; yn ogystal â darlledu, ffilm, animeiddio, ffasiwn, drama a ffotograffiaeth yn y Chyfadrannau Diwydiannau Creadigol.

Mae seremonïau pwysig yn cael eu datlu'n draddodiadol gyda cherddoriaeth a barddoniaeth a ysgrifennwyd yn arbennig, ac mae'r Brifysgol wedi gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid ar draws cymuned academiaidd y Brifysgol, y rhanbarth ehangach, yn ogystal â Thŷ Cerdd - Canolfan Gerddoriaeth Cymru, i nodi'r achlysur heddiw gyda chyfraniad parhaus. Comisiynwyd y gerddoriaeth ffanffer **Prifysgol De Cymru** a gorymdeithiol ar gyfer heddiw gan gyfansoddwr a anwyd yn y cymoedd, Gareth Wood, ac fe'i clywir am y tro cyntaf pan fydd y Canghellor yn dod i mewn.

Mae gan Gymru draddodiad cryf o adrodd straeon trwy gerddoriaeth a barddoniaeth gosod i gyfeliant telyn a llais. Wrth groesawu'r Gangellor newydd, bard yn ei haw lei hun, yr Athro Philip Gross wedi cydweithio gyda'r cynfansoddwr graddedig ifanc Benjamin Vaughan i greu croeso barddol modern. Glosa yw'r gerdd, sef ffurf draddodiadol lle mae bard yn cymryd geiriau bardd arall, uchel ei barch, ac yn creu anerchiad o groeso ar sail y geiriau hynny. Mae **Our Home Addresses** yn un cael ei pherfformio heddiw gan y Bardd, myfyrwyr Cymraeg a'r delynores Megan Morris, a myfyrwyr rhyngwladol mezzo-soprano Kerri-lyne Dietz.



**Yr Athro Philip Gross** yw Athro Ysgrifennu Creadigol Prifysgol De Cymru, ac mae'n fardd ac yn nofelydd i oedolion a phobl ifanc. Enillodd Wobr T.S.Eliot am *The Water Table* yn 2009, Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru 2010 am *I Spy Pinhole Eye*, yn ogystal â Gwobr

CLPE am Farddoniaeth Plant am *Off Road To Everywhere* yn 2011.



Ganwyd **Gareth Wood** yng Nghilfynydd, de Cymru, ac addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn Pontypridd. Mae wedi ysgrifennu sawl ffanffer, gan gynnwys pedwaredd sesiwn y Cynulliad Cenedlaethol yn 2011 a agorwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'n enwog yn rhyngwladol fel cyfansoddwr ar gyfer bandiau pres, ac mae wedi arwain y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol hefyd.



Enillodd **Benjamin Vaughan** a anwyd yn y Rhondda, Radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ers hynny, mae wedi gweithio gyda Phedwarawd Arditti, Cerddorfa Siambr Llundain, WNO Max, a Sinfonia Cymru. Ers 2013, mae wedi bod yn cynnal Ben Vaughan | Music sy'n cynnwys comisiynu penodol, tiwtora preifat a gweithdai addysgol.



# “Our Home Addresses”

glosa ar linellau gan Rowan Williams

**... the scraps of paper from the fire, yesterday's news and last week's envelopes. The words come back on them at sunrise, faintly traced. Sometimes we read our home addresses.**

from *September Birds*, Rowan Williams

Friend, welcome... is it home? You don't need me, an incomer, to show you places you'll have known all along. The skill's to weigh familiarity with distance, hold the focal length. Worked stone, scorched bracken... Keep us clear. It's easy to see what's gone, the valleys like a bare ruined choir where late the... as if nothing's to be grown from emptied spaces underground but history. Then the clang of a scaffolding pole, the screech of a tyre flush birds **like scraps of paper from the fire**

into an updraught. Jackdaws! They've something to say as usual. Some wry gossip. They've seen it before, whatever's for the burning. They're off, on their way to some new kerfuffle. They'll survive, for sure. The skill is letting silence speak – the grey slag scree smoothed out to baize-green slopes that tell us little, but enough – and in more than one language. More than two. The everyday adds its scholarly footnotes to our poets' tropes of **yesterday's news and last week's envelopes**

(some unopened, too late now, that might be charity appeals, last-chance sales, red-top Final Demands). Held to the flames, they'll write what they know – how pages of ash on their bed of embers quiver on the edge of fight-or-flight. Or weightless now, they lift, displaced into the sky's translation. They will be read, the way that certain low deep angles of the light pick out this bank, that ditch, however long erased; **the words come back at sunrise, faintly traced**

inside us. That's the skill, one we study to learn though we're all heirs to it – of head and heart and hand. To be the paper, and the print. To burn. To be what flies up from the fire, what comes apart and what we're part of. Friend, help us discern the human way – to be like God's own guesses, sparks in the night, inspired doubts... The art is to listen through the world's noise – then return the words to quiet, wash them clean. And yes, it's then, **sometimes, we read our home addresses.**

Philip Gross





Yr Anrhydeddus Mrs Ustus  
Nicola Davies DBE

# Y Fonesig Nicola Davies

Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr Anrhydeddus Mrs Ustus Nicola Davies DBE, cyfreithiwr ac eiriolwr, arbenigwr ar feddygaeth a Barnwr yr Uchel Lys, arweinydd yn y Gyfraith a chwalwr nenfydau gwydr, gyda Doethuriaeth Anrhydeddus y Gyfraith gan y Brifysgol.

Mae ein system cyfiawnder gwrthwynebus yn dibynnu ar allu eiriolwyr medrus i roi eu barn bersonol o'r neilltu a chyflwyno'r achos cryfaf posibl ar ran y Goron neu'r diffynnydd. Mae Nicola Davies yn dangos gallu aruthrol i wneud hyn.

A hithau'n arbenigwr mewn cyfraith esgeuluster meddygol, cyflawnodd rôl bwysig yn yr Ymchwiliad BSE ac achos llawfeddygon y galon Bryste. Ond, yn yr enghraifft gryfaf efallai o'i gallu i gyflawni rôl eiriolwr amhleidiol, sy'n dangos ei hymrwymiad i wasanaethu buddiannau cyfiawnder, cynrychiolodd Harold Shipman yn un o achosion troseddol uchaf ei broffil yr oes fodern. Fel y crynhodd yn ei geiriau ei hun: "Rydych chi'n dysgu i roi eich teimladau o'r neilltu a bwrw iddi."

Mae ei gyrfa'n un nodedig. A hithau'n fargyfreithiwr gweithredol ac aelod o Gray's Inn, datblygodd enw da trwy ei gwaith cyfraith sifil ym maes meddygaeth. Hi yw'r Gymraes gyntaf i fod yn Gwnsler y Frenhines, a'r ieuengaf yng Nghymru i feddu ar y statws hwnnw pan oedd yn 39 oed. Fe'i galwyd i'r Bar ym 1976, ac aeth ymlaen i fod yn Gofiadur ym 1998 cyn cael ei phenodi'n ddirprwy farnwr yr Uchel Lys yn 2003. Ers ei phenodi i'r Uchel Lys, yn aelod o Adran Mainc y Frenhines, mae hi'n parhau i ymdrin â rhai o'r achosion mwyaf sensitif i ddod gerbron yr Uchel Lys.


Fe'i ganwyd yn Llanelli a symudodd i Ben-y-bont ar Ogwr pan oedd yn ifanc, felly mae Cymru'n agos iawn i'w chalon. Mae'n bleser gennym nodi iddi gael ei phenodi'n Farnwr Llywyddol ar gyfer Cylchdaith Cymru, gan fod Cymru a'i diwylliant yn bwysig iawn iddi.

A hithau wedi llwyddo i gyflawni cydnabyddiaeth uwch ym myd y gyfraith, mae hi'n llwyr ymrwymedig i annog menywod eraill i ddilyn ei hesiampl. Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel barnwr cyswllt ar gyfer amrywiaeth, mae hi wedi gwneud cyfraniad aruthrol at y proffesiynau cyfreithiol o ran annog ymgeiswyr o bob cefndir a rhoi sicrwydd iddynt fod penodiadau i swyddi barnwrol yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod yn unig.

Fel yr adroddodd yr Independent iddi ddweud yn gofiadwy ym 1995, "Diffyg hyder sy'n atal menywod galluog rhag camu ymlaen fel y mae dynion. Rydw i'n deall gan fy mod innau wedi dioddef ohono fy hun." Ond roedd ganddi hefyd gyngor i'w hun sy'n wir i bob person ifanc sy'n ymuno â byd gwaith: "Gallaf naill ai roi cynnig arni neu ddal dig."

Mae Nicola Davies wedi gwneud mwy na "rhoi cynnig arni". Mae'r cyfreithiwr cenhedlaeth gyntaf, a gafodd addysg wladwriaeth yng Nghymru, wedi mynd o ymarfer cyfraith feddygol proffil uchel i'r Uchel Lys, o Ysgol Ramadeg Pen-y-Bont ar Ogwr i Ysbytai'r Frawdlys, a hi bellach yw un o gyfreithegwyr uchaf eu parch ein hoes.





Mae addysg uwch yn ymwneud â rhoi sylfaen ar gyfer bywyd yn ogystal â ffordd o edrych ar y byd sy'n galluogi unigolion i fynd i'r afael â heriau ym mha bynnag yrfa.

Warren Gatland

# Warren Gatland

Mae'r Brifysgol yn cydnabod Warren David Gatland, arloeswr ym myd y campau, hyfforddwr enillwyr y Gamp Lawn a'r Llewod llwyddiannus, athro chwaraewyr a'r sawl a wnaeth adfer balchder cenedlaethol, gyda Doethuriaeth anrhydeddus y Brifysgol.

Ychydig o bobl sy'n gwybod mai ym myd addysg y dechreuais fy ngyrfa. Ar ôl addysgu yn fy mamwlad, Seland Newydd, am ddegawd, dysgais ba mor bwysig yw addysg o ran trawsnewid bywydau'r rhai sy'n manteisio ar y cyfleoedd y mae'n ei chyflwyno.

I mi, mae addysg uwch yn ymwneud â rhoi sylfaen ar gyfer bywyd yn ogystal â ffordd o edrych ar y byd sy'n galluogi unigolion i fynd i'r afael â heriau ym mha bynnag yrfa. Rhoddodd fy mhrofiad personol i o astudio addysg ym Mhrifysgol Waikato y gallu i mi gynllunio, rheoli fy amser ac, yn bwysicaf oll, ysgogi fy ngallu i feddwl yn annibynnol. Yn ei ffurf fwyaf effeithiol, mae addysg prifysgol yn ymwneud ag ehangu'r meddwl, beth bynnag fo maes y pwnc o dan sylw. Hyd yn oed nawr, rwyf yn defnyddio fy sgiliau fel addysgwr yn fy rôl fel hyfforddwr rygbi; mae'r rhain yn cynnwys dulliau syml megis gwybod faint o wybodaeth a hyfforddiant y gall chwaraewyr ymdopi â hwy mewn un sesiwn.

Fel hyfforddwr tîm cenedlaethol, rwyf yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad fy chwaraewyr ar y maes chwarae, yn amlwg. Fodd bynnag, mae ymrwymiad ehangach i wneud yn siŵr bod aelodau'r tîm yn cael blas ar fywyd 'go iawn'. Wedi'r cwbl, ar ddiwedd eu gyrfaeodd, bydd angen sgiliau ehangach na'r rhai a ddefnyddir mewn chwaraeon rhyngwladol yn unig. Dyma ble mae ein cysylltiad â sefydliadau addysg uwch mor werthfawr. Mae sawl enghraifft amlwg wedi bod o aelodau'r garfan bresennol sydd wedi cyfuno astudiaethau prifysgol â'u gwaith proffesiynol ym myd y campau. Rydym wedi cydnabod pa mor bwysig yw'r gymysgedd hon ac wedi gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr unigolion hyn wedi gallu cwrdd â'r gofynion yn y naill faes yn eu bywydau.

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae prifysgolion yn cynnig cyfleoedd i'w myfyrwyr nad oeddent yn bodoli yn y gorffennol. Rhoddir yr hyblygrwydd i fyfyrwyr ennill profiad y tu allan i'w hastudiaethau academaidd gan roi cymorth iddynt ganfod swydd ar ôl graddio. Mewn sefydliadau blaengar, mae cyfnodau ym myd gwaith a phrosiectau byw yn rhan annatod bellach o gyrsiau lefel addysg uwch, gan olygu bod graddedigion yn gadael gyda llawer mwy na chymwysterau academaidd ar eu tystysgrifau.

Bu cysylltiad rhwng Undeb Rygbi Cymru a Phrifysgol De Cymru ers amser maith, ac rwyf wrth fy modd fy mod i, fel fy Mhrif Weithredwr Roger Lewis a chapten y tîm, Sam Warburton, yn cael dyfarniad anrhydeddus gan y sefydliad hwn sy'n ennill ei blwyf.

Erbyn hyn, mae'r Brifysgol yn ganolfan arbenigedd ar gyfer chwaraeon o'r safon uchaf; o seicolegwyr chwaraeon a gwyddonwyr chwaraeon, i'r rhai sy'n arbenigo mewn diwydiannau chwaraeon. Mae gallu manteisio ar arbenigedd y Brifysgol a gwybodaeth ei hademyddion yn gaffaeliad gwych i mi. Mae rhannu syniadau fel hyn a'r ddeialog agored sydd gennym gyda'r byd academaidd yn hollbwysig er mwyn meithrin ein sgiliau a'n sylfaen wybodaeth fel carfan.

Fel Doethur Anrhydeddus y Brifysgol, edrychaf ymlaen at weld y bartneriaeth hon yn datblygu hyd yn oed ymhellach yn y dyfodol.

**Warren Gatland**

# Carwyn Jones

Mae'r Brifysgol yn cydnabod cyfraniad Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, cyfreithiwr, darlithydd, ac arweinydd, ym myd y Gyfraith, bywyd cyhoeddus yng Nghymru a democratiaeth, drwy gyflwyno Doethuriaeth Anrhydeddus y Brifysgol yn y Gyfraith iddo.

Mae bod yn Brif Weinidog Cymru yn anrhydedd aruthrol, ac rydw i'n sylweddoli ei fod yn ddewis gyrfa anarferol o ran. Mae hefyd yn ganlyniad i cefnogaeth gan fy nheulu ac addysg prifysgol a roddodd i mi'r cyfarpar i wneud fy ngwaith.

Cefais fy magu mewn teulu oedd yn credu mewn gwerth addysg. Roeddem yn rhan o draddodiad sylfaenol Cymru sy'n gwerthfawrogi dysgu ac yn parchu ei ysgolheigion. Athrawon oedd fy rhieni, ac roedd y teulu'n falch o'n haelod cyntaf i lwyddo gyda chais i fynd i'r Brifysgol; enillodd fy hen ewythr ei le cyn iddo gael ei ladd yn y rhyfel cyn gallu manteisio ar ei gyfle. Fi oedd y cyntaf yn y teulu i ennill gradd, ac roeddem yn debyg i gynifer o deuluoedd eraill ledled Cymru, gyda phob cenedlaethol yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd cynyddol.

Newidiodd y Brifysgol fy mywyd mewn sawl ffordd. Rhoddodd gyfle i mi ganfod fy annibyniaeth fy hun, llunio fy safbwyntiau fy hun, edrych ar ôl fy hun, yn ogystal â chwrrd â phobl eraill o bob cefndir a chenedl. Pan oeddwn yn fy ardegau, roeddwn yn gwybod mai ym myd gwleidyddiaeth yr oeddwn am weithio. Heb os, roedd gen i'r ewyllys a'r ymroddiad, ond roedd angen y gallu arnaf i hefyd, a dyna beth gefais drwy astudio ar gyfer fy ngradd. Yn y Brifysgol, dysgais sgiliau dadlau, sut i gyflwyno fy safbwynt a sut i fynd i'r afael â dadl fy ngwrthwynebydd. Mae'n hyfforddiant sylfaenol a oedd o fudd

i mi am ddegawd ym myd y gyfraith cyn i mi fynd i'r Cynulliad, ac mae'n sylfaen yr ydw i'n parhau i'w ddefnyddio bob dydd. Cefais fy addysgu am y gyfraith gan y Brifysgol, ond cefais fy addysgu am fod yn gynrychiolydd hefyd: gwrando, trafod, deall; sgiliau craidd eiriolwr.

Dyna gyfle na chafodd llawer o bobl ifanc yn fy oed i, ac mae'r ffaith fod gan ein myfyrwyr ragor o gyfleoedd nag oedd gen i yn fyfyrwr is-raddedig yn dangos cynnydd go iawn. Mae gennym ddarlithwyr gwych yng Nghymru, a go brin y gallai ein myfyrwyr astudio mewn cyfleusterau gwell.

Pan welaf y talent a'r gallu sydd ar gael ym Mhrifysgol De Cymru, rwy'n cael fy synnu a'm calonogi ar gyfer y dyfodol. Dyna sut dylai pethau fod, gan fod ein graddedigion heddiw mewn sefyllfa llawer anoddach a mwy cystadleuol nag yr oeddwn i ynnddi pan ddechreuais weithio. Po fwyaf y cyfleoedd, po fwyaf y gystadleuaeth. Dyna pam y mae angen prifysgol fel hon arnon ni a nhw.

Mae heddiw'n ddiwrnod i ddathlu beth sy'n gwneud y Brifysgol hon yn unigryw. Rwy'n falch o ddweud fy mod i heddiw, mewn ffordd wahanol ac arbennig, yn dod yn rhan o gymuned academaidd Prifysgol De Cymru. Mae'n golygu llawer iawn i mi.

Carwyn Jones







Pan welaf y talent a'r  
gallu sydd ar gael ym  
Mhrifysgol De Cymru,  
rwy'n cael fy synnu a'm  
calonogi ar gyfer y dyfodol.

Y Gwir Anrhydeddus  
Carwyn Jones AC

# Julia Unwin

Mae'r Brifysgol yn cydnabod cyfraniad Julia Unwin CBE, Prif Weithredwr Sefydliad Joseph Rowntree, arbenigwr mewn polisïau cyhoeddus, ymgyrchydd dros elusennau, eiriolwr pobl heb lais, gyda Doethuriaeth Anrhydeddus (DUniv) y Brifysgol.

Braint o'r mwyaf yw i mi a Sefydliad Joseph Rowntree fod yn rhan o'r cam nesaf yn natblygiad Prifysgol De Cymru. Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfle i bobl o bob oed wella eu sgiliau a dysgu drwy gydol eu hoes, yn ogystal â bod yn rhan o'r gymuned yn ne Cymru. Ar ben hynny, mae'n datblygu canolfan ragoriaeth, gwybodaeth a sgiliau fydd yn ein cyfoethogi i gyd, ac yn rhoi cyfle hyd yn oed yn well i ni ymateb i'r heriau lu yn yr oes sydd ohoni.

Rydym yn byw mewn byd aflonyddol, rhanedig ac sy'n aml yn beryglus. Cawsom ein hatgoffa, os oedd angen hynny arnom, o bŵer yr hinsawdd yn y dinistr a achosodd y llifogydd yn gynharach eleni, a'r difrod y gall pobl a lleoedd ei ddiodef. Y farn wyddonol gytûn yw y byddwn yn wynebu 'tywydd eithafol' parhaus a bygythiol a bod angen i ni ddefnyddio ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n gallu i osgoi effeithiau gwaethaf newid niweidiol yn yr hinsawdd, yn ogystal ag amddiffyn pobl a lleoedd rhag ei effeithiau ar yr un pryd. I oroesi'r cyfnod nesaf hwn yn hanes ein gwlad, bydd angen arweiniad arnom ar lefel gymdogaethol, ac ym mhob cymuned a dinas yn y wlad. Mae arweinwyr gwleidyddol yn wynebu'r her enfawr o wneud yn siŵr ein bod yn dyrannu ein hadnoddau cynyddol brin mewn modd sy'n cefnogi cenedlaethau'r dyfodol cymaint â chenedlaethau cyfredol. Byddai rhoi un genhedlaeth yn erbyn y llall yn arwain at ymraniad, gelyniaeth a methiant.

Fodd bynnag, nid ym maes yr amgylchedd yn unig yr ydym yn wynebu her a pheryglon. Wrth i ni gropian yn araf bach o'r argyfwng ariannol hiraf yn ein bywydau, mae gennym gyfle i ailystyried sut rydym yn gweithredu a sut rydym yn dyrannu arian. Yn rhy aml, y bobl a'r lleoedd tlotaf sy'n dioddef fwyaf yn ôl pob golwg. Yn ein marchnad lafur ranedig, lle nad yw gwaith caled yn cynnig ffordd ddibynadwy o osgoi tloti mwyach, mae tloti yn ddrwg cymdeithasol sy'n parhau i fwrw cysgod dros y genedl.

Mae angen i ni hefyd ymateb yn ddychmygus, i'r ffordd y mae ein poblogaeth yn newid. Dylem ymfalchïo'n llawn yn y ffaith ein bod yn byw'n hirach. Mae'r ffaith fod pobl ag anabledau difrifol yn parhau i allu byw bywydau llawn ac egniol yn rhywbeth i'w longyfarch. Ac eto, rydym yn dehongli'r newid demograffig hwn yn rhy aml fel rhywbeth fydd yn achosi argyfwng a phanig.

Grym rhannu dysgu, canfod trylwyr a safbwyntiau newydd sydd eu hangen arnom fel nad yw'r grymoedd aflonyddol hyn yn ein gwneud yn gymdeithas hyd yn oed fwy rhanedig. Mae'n fraint gen i arwain Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Dai Joseph Rowntree. Cyfrodd ein sylfaenydd, Joseph Rowntree, faint o bobl oedd yn byw mewn tloti yn Efrog, ac adeiladodd dai ar gyfer ei weithwyr mewn mannau gwyrdd a dymunol. Hyd heddiw, rydym yn cyhoeddi adroddiadau i ddangos pwy sy'n dlawd, a beth ellir ei wneud. Mae'r data ar ein gwefan yn rhannu'r ffeithiau; yr ymchwil yr ydym yn ei chomisiynu, ac mae'r ffordd yr ydym yn gweithio yn dangos rhai o'r atebion.

Yn yr holl waith hwn, boed mewn ymchwil neu'n waith ymarferol, rydym yn dibynnu'n llwyr ar bŵer ac adnoddau prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig. Maent yn cynnig staff hyfforddedig i ni, boed hynny er mwyn rheoli cartrefi gofal, yn adeiladu tai sydd o les i'r amgylchedd, neu'n dylunio ffyrdd amgen o ymateb i anabled a dementia, ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyhoeddi ac yn cyfathrebu mewn ffordd y gall pobl ei deall. Mae prifysgolion yn addysgu annibyniaeth a hunanddisgyblaeth wrth reoli arian. Maent yn gwella gallu pobl i gynllunio, cyfathrebu a chanolbwyntio. Mae myfyrwyr yn dysgu i freuddwydio, anelu'n uchel, dychmygu gwell byd. Mae angen i ni gyd gael ein hatgoffa ynghylch beth sy'n bwysig i ni, a beth allwn ei wneud yn dda.

Julia Unwin



Mae prifysgolion yn addysgu annibyniaeth a hunanddisgyblaeth wrth reoli arian. Maent yn gwella gallu pobl i gynllunio, cyfathrebu a chanolbwyntio.

Julia Unwin CBE